

GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYD-WEINIDOGOL AR DDULL YSGOL GYFAN O HYBU IECHYD MEDDWL A LLESIANT

AIL GYFARFOD 4 MAWRTH 2019, CAERDYDD 2, PARC CATHAYS

Eitem 1: Y Sawl a oedd yn Bresennol a Chroeso

Presennol	
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Vaughan Gething (MfHSS)
Y Gweinidog Addysg	Kirsty Williams (MFE)
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	Lynne Neagle AM (LN)
Prif Weithredwr Arweiniol y GIG ar gyfer Iechyd Meddwl	Carol Shillabeer (CS)
Cyfarwyddwr Gwella Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dr Julie Bishop (JB)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	Aled Evans (AE)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	Nicola Jones (NJ)
Pennaeth Uwchradd (Lewis Boys School)	Chris Parry (CP)
Pennaeth Cynradd (ysgol Bro Morgannwg)	Paula Vaughan (PV)
Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu (dirprwy)	Matt Downton (MD)
Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru	Steve Davies (SD)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru	Albert Heaney (AH)
Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru	Jo-Anne Daniels (JD)
Uwch Swyddog Meddygol (Iechyd Meddwl), Llywodraeth Cymru	Dr Liz Davies (LD)
Estyn	Mark Champion (MC)
Cynghorydd y Prif Swyddog Meddygol ar Seiciatreg Plant a'r Glasoed	Dr Dave Williams (DW)
DECIPHer (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion)	Yr Athro Simon Murphy (SM)
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru	Sally Holland (SH)
Uwch Swyddog Meddygol (Plant ac Iechyd Mamolaeth), Llywodraeth Cymru	Dr Heather Payne (HP)
Is-gadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol	Charles Janczewski (CJ)
Llefarydd CLLIC ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Huw David (HD)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (dirprwy)	Dave Howes (DH)
Cynrychiolydd seicoleg, Aneurin Bevan	Dr Liz Gregory (LG)
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru	Ruth Conway (RC)
Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, Llywodraeth Cymru	Lloyd Hopkin (LH)
Cyfarfod cefnogi ysgrifenyddiaeth	Jason Pollard (JP) Clare van Bohemen Hunter (CvBH)
Ymddiheuriadau	

Prif Swyddog Nyrsio	Yr Athro Jean White
Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethu'r GIG a Gwasanaethau Corfforaethol	Jo Jordan (Matt Downton yn dirprwyo)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Andrew Jarrett (Dave Howes yn dirprwyo)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru	Richard Thurston
Consortia Addysg Rhanbarthol	Debbie Hartevelde

Eitem 1 ar yr agenda – croeso, cyflwyniadau, cofnodion o'r cyfarfod diwethaf

Agorodd MfE y cyfarfod, ac esboniodd fod y pwyslais heddiw ar symud ymlaen yn hytrach nag ar ailystyried y cyfarfod diwethaf. Cadarnhawyd bod camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith. Awgrymwyd y gellid gwahodd cynrychiolydd gwaith ieuencid gyda chaniatâd y grŵp. Cytunodd y grŵp ar hyn.

CAM GWEITHREDU 1: Swyddogion i wahodd cynrychiolydd gwaith ieuencid i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Adolygwyd y cofnodion. Cywirwyd sillafiad enw Kate Eden.

Adolygwyd Cylch Gorchwyl y Grŵp. Soniodd CS am Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac am y ffaith bod y Gronfa Gofal Integredig yn cyfeirio'n benodol at blant a phobl ifanc.

Eitem 2 ar yr agenda – cynllun gwaith a phapur cyllido

Cyflwynodd MfHSS y cynllun gwaith diwygiedig, y papur crynodeb o gynnydd a'r papur cyllido, gan nodi fod y modd y rhennir y cyllid yn ddangosol a'i fod yn croesawu trafodaeth bellach ar egwyddorion y gwariant.

Rhoddodd JP y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwaith. Cymerodd y trefniadau llywodraethu fwy o amser na'r disgwyl i'w cadarnhau sy'n golygu bod y cynllun gwaith wedi dechrau cael ei ddatblygu ym mis Ionawr. Mae'n cynnwys 32 o gamau gweithredu bellach, gydag un ar seicolegwyr addysg yn cael ei ychwanegu o fanifesto'r Prif Weinidog, ac un yn dod o gynhadledd CCAC. Esboniodd fod y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi'i rannu yn is-grwpiau, ac y bydd pob un ohonynt yn ysgogi cynnydd ar eu camau gweithredu penodol o'r cynllun gwaith.

O ran ffurf derfynol y cynllun, nododd JP ei bod yn ddogfen fyw a'i bod wrthi'n cael ei hadolygu er mwyn cadarnhau rhai camau gweithredu nawr bod y cyllid yn cael ei rannu'n fwy pendant. Nododd JP y byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei dosbarthu cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Agorodd MfHSS y drafodaeth ar y cynllun gwaith. Nododd LN fod y cynllun yn rhy gymhleth ar hyn o bryd a bod angen canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a gwneud cysylltiadau mwy pendant â rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc. Dylai gwasanaethau mapio mewn ysgolion fod yn brif flaenoriaeth. Cwestiynodd LN y camau parhaus i ymgorffori a mesur canlyniadau hyd yn oed pan fydd cam gweithredu cynllun gwaith wedi'i labelu'n gyflawn, fel ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA).

Lleisiodd LN bryder y gallai creu is-grwpiau ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid arwain at orgymhlethu a dyblygu gwaith, gan nodi bod Cadernid Meddwl eisoes wedi mapio'r hyn i'w wneud a phwysleisio ei bod yn bwysig peidio â bod dan ormod o bwysau yn y broses.

Cytunodd CS gydag LN ynghylch yr angen i dynnu sylw at ryng-gysylltiadau â Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, yn benodol ar gyfer camau gweithredu 26-30. Un darn allweddol o waith ar gyfer cam gweithredu 26 yw adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o ofal iechyd meddwl sylfaenol lleol a gynhelir ym mis Ebrill/Mai.

Dywedodd SH ei bod yn dda gweld y dull ysgol gyfan a'r dull system gyfan yn y cynllun gwaith ond dywedodd nad oedd uchelgais o fewn rhai o'r camau gweithredu mewn perthynas â mapio. Mae gwaith da iawn eisoes yn mynd rhagddo mewn sawl man. Nid yw'n ddigon i arsylwi ar hyn neu ei fapio yn unig, ond mae angen canolbwyntio ar dynnu sylw at yr arfer da hwnnw a'i rannu. Cafwyd cytundeb cyffredinol o'r ystafell bod yn rhaid i broses fapio ddangos yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, nid yr hyn sydd wedi digwydd.

Cytunodd AE ar bwysigrwydd mapio a'r angen i greu dewislen ar gyfer ysgolion, ac awgrymodd y gall y cynlluniau mewngymorth peilot ar gyfer CAMHS roi tystiolaeth o arfer da y gellid ei gyflwyno'n gyflym. Arsylwodd AE hefyd fod yn rhaid i'r grŵp ystyried problemau capasiti, yn arbennig mewn perthynas â chymau gweithredu sy'n cynnwys seicolegwyr addysgol.

Arsylwodd MfE fod gan gynlluniau mewngymorth ar gyfer CAMHS ddiben gwahanol i fapio, a chwestiynodd p'un a fyddai CCAC yn gallu helpu gyda gwaith mapio.

Dywedodd AE fod CCAC yn hapus i ymrwymo i wneud y gwaith caib a rhaw mewn ALLau er mwyn helpu gyda'r broses fapio.

CAM GWEITHREDU 2: AE/NJ i gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau mapio ac ymyriadau mewn ysgolion

Cyfeiriodd LG at ymchwil yr Athro McLaughlin ar y ffaith bod meddylfryd yr ysgol yn allweddol i unrhyw newid parhaus ac at yr angen i ysgolion newid safbwyntiau er mwyn gweld eu hunain fel canolfan lesiant, gan amlygu'r gwaith a wneir eisoes yng Ngwent ar y mater hwn.

Dywedodd MfE fod yr her yn ehangach nag ysgolion, rhaid dechrau yn y blynyddoedd cynnar.

Dywedodd SM fod gan DECIPHer ddata am ysgolion a all helpu yn y broses fapio y gall eu rhannu.

CAM GWEITHREDU 3: SM i rannu data mapio ysgolion â swyddogion Llywodraeth Cymru

Rhannodd PC a CP eu safbwyntiau fel penaethiaid. Mae angen i ysgolion gynnig her yn ogystal â helpu i ddatblygu gwydnwch disgyblion. Cytunodd PC ag MfE fod angen i waith ddechrau cyn oedran ysgol a bod yn rhaid iddo ymestyn i deuluoedd, gan dynnu sylw at fodel y tîm o amgylch y teulu fel dull cadarnhaol. Ychwanegodd PV hefyd fod dysgu proffesiynol yn bwysig a bod angen ystyried pwy fydd yn rhoi'r hyfforddiant a pha fath o ddisgwyliadau y dylid eu rhoi ar athrawon. Cytunodd CP ac ychwanegodd fod symlrwydd yn hanfodol fel bod ysgolion yn gwybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud a beth sydd fwyaf effeithiol ac ati.

Trafododd y grŵp bwysigrwydd bod y broses fapio yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol, yn hytrach nag yn rhestr heb unrhyw wybodaeth ansoddol, a sut i gynnwys lefel o werthuso fel rhan o unrhyw broses fapio. Un mater cyfredol yw faint o gynnyrch wedi'i frandio sy'n cael ei wthio ar ysgolion sydd heb unrhyw ffordd o wybod pa mor effeithiol yw'r rhaglenni. Hefyd, trafodwyd y

syniad o fapio neu werthuso'r amrywiaeth o hyfforddiant a gynigir i staff ysgolion ar iechyd a llesiant er mwyn sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

Cytunodd y grŵp fod hyfforddiant o ansawdd yn hanfodol a bod angen rhoi mwy o feddwl i'r ffordd o uwchsgilio pob aelod o staff ysgolion, yn cynnwys cynorthwyrwyr addysgu ac athrawon presennol yn ogystal ag athrawon newydd. Nodwyd bod hyn yn arbennig o bwysig ar lefel uwchradd. Nododd NJ fod arweinyddiaeth systemau yn allweddol, a bod llawer o bobl eisoes mewn ysgolion/o amgylch ysgolion sydd ag arbenigedd, ond mae angen i ni sicrhau eu bod yn siarad â'i gilydd ac yn ymwneud â chlystyrau o ysgolion lle y bo'n bosibl.

Awgrymodd HP y dylid adolygu Siarter Melbourne sy'n nodi rhagamodau ar gyfer hybu iechyd meddwl yn effeithiol.

Cadarnhaodd RC fod cynlluniau mewngymorth CAMHS yn cyflawni diben gwahanol i fapio. Caiff adroddiad ffurfiol cyntaf ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019 ond bydd swyddogion yn cyflwyno papur ar ganfyddiadau cychwynnol yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Mehefin. Cytunodd RC y dylid gwneud mwy mewn perthynas â chyfathrebu ag ysgolion.

CAM GWEITHREDU 4: Swyddogion i baratoi papur ar ganfyddiadau cychwynnol cynlluniau mewngymorth CAMHS ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

CAM GWEITHREDU 5: Swyddogion i ddarparu gwybodaeth yn ôl i'r grŵp ar ddefnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer plant a phobl ifanc

CAM GWEITHREDU 6: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu cynllun gwaith diwygiedig ym mis Mai, gan ystyried sylwadau'r grŵp

Eitem 3 ar yr agenda – MDPH Iechyd a Llesiant

Rhoddodd LH gyflwyniad ar y MDPH iechyd a llesiant y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus arno ym mis Ebrill. Roedd y grŵp yn hoffi cynllun y MDPH ac yn meddwl ei fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Dywedodd SH nad oedd unrhyw gysylltiad ag unrhyw waith gwrthfwlio, a fyddai'n fuddiol. Cytunodd y Grŵp y byddai'r broses weithredu yn arbennig o heriol i ysgolion uwchradd.

Nododd JB nad oedd unrhyw arbenigwyr pwnc yn y maes hwn ac y byddai ymarfer datblygu yn cymryd amser. Ychwanegodd JB fod y MDPH yn amlygu natur ryng-gysylltiedig iechyd corfforol ac iechyd meddwl mewn perthynas â chymorth a darpariaeth gyffredinol.

Cytunodd y Grŵp fod y MDPH hwn yn allweddol er mwyn gallu cyflwyno'r cwricwlwm cyfan yn llwyddiannus, gan fod cael iechyd a llesiant yn gywir yn arwain at yr amodau cywir i MDPH eraill ffynnu.

Nododd JD fod y datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ar ddylanwadau cymdeithasol yn amserol ac yn bwysig, a'i fod yn cysylltu â cham gweithredu yn y cynllun gwaith sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i fflagio'n goch ar hyn o bryd – mae'n bwysig ein bod yn sicrhau gwelliannau o ran y cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl.

Dywedodd MfE fod y cynllun gweithredu ar ddiogelwch ar-lein ac adnoddau ar gyfer ysgolion a rhieni wedi cael eu cyhoeddi yn y maes hwn yn ddiweddar.

Eitem 4 ar yr agenda – adroddiad o gynhadledd CCAC

Rhoddodd NJ grynodedb o'i phapur ar gynhadledd CCAC, gan bwysleisio bod amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd ac addysg yn bresennol yno, a bod CCAC yn bwriadu symud ymlaen gyda chynllun peilot o'r syniad model o fwrdd partneriaeth/clwstwr a ddaeth o'r gweithdai.

Nododd CS ei bod yn ymddangos bod brwdfrydedd ar draws y sectorau gwahanol ar gyfer problemau iechyd meddwl a llesiant ar ei uchaf.

Nododd SH y dylai plant gael eu cynnwys yng nghynhadledd CCAC ac ym model y bwrdd partneriaeth y mae CCAC yn bwriadu ei dreialu. Canmolodd SH Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc a Llywodraeth Cymru am gyfarfod cyntaf y bwrdd ieuencid a gofynnodd pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith i'w alluogi i fwydo i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen/Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

Crynhodd CvBH rôl y bwrdd ieuencid i weithredu fel grŵp rhanddeiliaid ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc. Roedd y cyfarfod cyntaf yn canolbwyntio'n bennaf ar sefydlu'r sail a'r cefndir i'w ffurf. Bydd swyddogion o Lywodraeth Cymru yn cyflwyno awgrymiadau ar gyfer cynllun gwaith i gyfarfod nesaf y bwrdd ieuencid ym mis Ebrill. Mewn perthynas â llywodraethu, efallai y bydd pobl ifanc yn meddwl bod y syniad o fynd i un o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn frwydychus/diflas, ond maent yn ystyried gwahodd pobl allweddol fel y Gweinidogion, LN, CCfW i gwrdd â'r grŵp ieuencid a thrafod blaenoriaethau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o safbwynt y person ifanc. Mae Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn arwain y gwaith o ymgysylltu â'r Senedd ieuencid a bwriedir gweithio gyda nhw yn y dyfodol hefyd.

Eitem 5 ar yr agenda – Unrhyw Fater Arall

Nododd MfE fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi gwneud cais i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ar y cynnydd a wnaed erbyn diwedd mis Mawrth, ac y byddai'r ddau Weinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor cyn yr haf. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill yn y cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 3 Mehefin a chroesawyd awgrymiadau ar gyfer eitemau ar yr agenda. Eitemau eraill ar yr agenda ar gyfer y tro nesaf: cipolwg cyntaf ar adroddiad Estyn ar fesur llesiant, adborth gan CCAC ar broses y Penaethiaid Gwasanaethau o ystyried adroddiad ac argymhellion y Gynhadledd Llesiant.

CAM GWEITHREDU 7: MC i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar adroddiad Estyn ar lesiant

CAM GWEITHREDU 8: AE i adrodd yn ôl ar gyfarfod y Penaethiaid Gwasanaethau yn ddiweddarach ym mis Mawrth

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30 am.